

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer
(Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau)
(Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Tachwedd 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1990
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer
(Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau)
(Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Tachwedd 2009



Cynnwys

	tudalen
Aelodau'r Pwyllgor	3
Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion	4
1. Cyflwyniad	5
2. Cefndir	7
3. Egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am ddeddfwriaeth	9
(a) A yw'r modd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â deunyddiau ailgylchu yn ddigon agored a thryloyw?	
(b) A ellir bodloni nod y Mesur arfaethedig drwy ddefnyddio dulliau amgen?	
(c) A oes brwdfrydedd ymysg cymunedau i ymwneud â llwytho gwastraff er mwyn ei adfer?	
(ch) Cwmpas y Mesur arfaethedig;	
(d) Amseriad y Mesur arfaethedig; a	
(dd) Goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig.	
4. Goblygiadau ariannol	33
5. Materion eraill	36
(a) Gofyniad ar awdurdodau lleol i gymryd 'camau rhesymol' i gael y wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5);	
(b) Gofyniad ar awdurdodau lleol i gyhoeddi'r datganiad ar eu gwefannau;	
(c) Darpariaeth ynghylch y gwahoddiad i'r cyhoedd i gyflwyno cynrychiolaeth 'yn ymwneud â'r egwyddor agosatrwydd';	
(ch) Gofyniad ar awdurdodau lleol i 'roi sylw i' gynrychiolaethau a wneir i'r cyhoedd o dan adran 55B(3);	
(d) Monitro a rheoleiddio; ac	
(dd) Canlyniadau posibl eraill y Mesur arfaethedig.	
6. Adroddiadau pwyllgorau eraill y Cynulliad	48

ATODIADAU

Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law

Nid yw'r cyflwyniadau eu hunain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond maent ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-proposed_recycling/lc1_swr_written_responses.htm

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth lafar

Nid yw Cofnod y Trafodion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, ond mae ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-proposed_recycling.htm

Atodiad C: Llythyr gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, at Rosemary Butler AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 (28 Hydref 2009)

Atodiad D: Llythyr gan Janet Ryder AC, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, at Nerys Evans AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig (23 Medi 2009)

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

Aelodaeth y Pwyllgor

Rosemary Butler (Cadeirydd)	Llafur
Mohammad Asghar	Plaid Cymru
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Ann Jones	Llafur
Huw Lewis	Llafur
Nick Ramsay	Plaid Geidwadol Cymru

Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law am y diffyg tryloywder yn y trefniadau presennol o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn delio â deunydd ailgylchu, yn enwedig y deunydd sy'n cael i allforio i'w adfer. Rydym yn derbyn felly fod modd gwneud gwelliannau yn y cyswllt hwn ac y dylai hynny ddigwydd. Yn wyneb hynny, **rydym yn llwyr gefnogi nod y Mesur arfaethedig**. Fodd bynnag, ni chredwn fod y Mesur arfaethedig yn angenrheidiol i wireddu ei nod, ac awgrymwn fod modd gwireddu'r nod heb greu deddfwriaeth. Ar ben hynny, rydym yn amau nad y Mesur arfaethedig yw'r ffordd fwyaf priodol nac effeithiol o ddenu cymunedau lleol i ymddiddori yn yr agenda ailgylchu ehangach. Yn olaf, rydym yn pryderu y byddai'r Mesur arfaethedig yn rhoi baich ychwanegol a dianghenraid ar awdurdodau lleol ac nad yw'n cynrychioli defnydd effeithlon nac effeithiol o adnoddau. Am y rhesymau hyn, **ni allwn gefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig**. Fodd bynnag, mae Mohammed Ashgar AC wedi ei gwneud yn glir ei fod yn cefnogi nod ac egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Rydym yn argymhell nad yw'r Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

1. Cyflwyniad

1. Ym mis Chwefror 2008, roedd Nerys Evans AC yn llwyddiannus mewn balot a gynhaliwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') i gael hawl i ofyn caniatâd i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod, yn unol â Rheol Sefydlog 23.99¹. Ym mis Mai 2008, cytunodd y Cynulliad y gallai Mesur arfaethedig Nerys Evans AC mewn perthynas ag ailgylchu gael ei gyflwyno i'w ystyried².

2. Ar 5 Tachwedd 2008, cafodd Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)³ ('y Mesur arfaethedig') a Memorandwm Esboniadol⁴ eu gosod gerbron y Cynulliad gan Nerys Evans AC.

3. Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ('y Pwyllgor'), i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 23.21⁵. Cytunodd wedi hynny y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 30 Tachwedd 2009 fan bellaf.

(a) Telerau craffu

4. Yn ein cyfarfod ar 29 Ebrill 2009, cytunwyd y byddem yn gweithio o fewn y fframwaith a ganlyn wrth graffu ar y Mesur arfaethedig:

Ystyried -

- (i) yr angen am Fesur Cynulliad mewn perthynas ag ymgysylltiad cymunedau â threfniadau awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â deunydd i'w ailgylchu;
- (ii) y prif ddarpariaethau a nodir yn y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn briodol i fodloni ei amcanion;
- (iii) goblygiadau ymarferol ac ariannol gweithredu darpariaethau'r Mesur arfaethedig; a
- (iv) a fydd y Mesur arfaethedig yn cyflawni ei ddiben a'i nod cyffredinol.

¹ Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2008

² Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2008

³ [Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer \(Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau\) \(Cymru\)](#)

⁴ Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru), [Memorandwm Esboniadol](#)

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Busnes, BC(3)32-08, Cofnodion y Pwyllgor, 2 Rhagfyr 2008

(b) Dull gweithredu'r Pwyllgor

5. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth a gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol yn bennaf o faes llywodraeth leol a rheoli gwastraff i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fel sail i'n gwaith. Ceir rhestr o ymatebion i'n hymgyngoriad yn **Atodiad 1**.

6. Casglwyd tystiolaeth lafar hefyd gan nifer o dystion, a cheir rhestr ohonynt yn **Atodiad 2**.

7. Mae'r adroddiad a'r argymhellion a ganlyn yn adlewyrchu'r casgliadau y daethpwyd iddynt ar sail y dystiolaeth a gasglwyd wrth i ni wneud ein gwaith. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad.

2. Cefndir

8. Mae'r prif bŵer i alluogi'r Cynulliad i wneud y Mesur arfaethedig wedi'i gynnwys ym Mater 12.5 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006⁶

Mater 12.5

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag—

(a) gwneud trefniadau gan awdurdodau Cymreig perthnasol i sicrhau gwelliant yn y ffordd y mae eu swyddogaethau yn cael eu harfer,

(b) gwneud trefniadau gan awdurdodau Cymreig perthnasol ar gyfer cynnwys, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr arferiad o swyddogaethau neu sy'n debygol o fod â buddiant ynddynt, a

(c) asesu ac arolygu perfformiad awdurdodau Cymreig perthnasol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn nodi:

“Diben y Mesur arfaethedig yw sicrhau bod y ffordd mae awdurdodau lleol Cymru yn ymdrin â deunydd ailgylchu yn fwy eglur ac agored. Yn benodol, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y gyfran o ddeunydd ailgylchu o gartrefi sy'n cael ei brosesu y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac Ardal Masnach Rydd Ewrop (EFTA).”⁷

10. Mae'n mynd ati wedyn i esbonio:

“...y bwriad yw, o ganlyniad i'r wybodaeth hon, y bydd trigolion yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu sy'n agosach at darddle'r deunydd ailgylchu na'r rhai sydd ymhellach i ffwrdd. Disgwylir hefyd y bydd cyhoeddi gwybodaeth

⁶ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#), c.32.

⁷ Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-07-EM-S1, paragraff 3.1.

yn arwain at fwy o ddiddordeb, ac felly mwy o gyfranogi, mewn ailgylchu.”⁸

⁸ Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-07-EM-S1, paragraff 3.3.

3. Egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am ddeddfwriaeth

11. Hoffem ei gwneud yn glir nad asesu rhinweddau neu ddiffyg rhinweddau allforio gwastraff i'w adfer oedd rôl y Pwyllgor. Wrth graffu ar yr egwyddorion cyffredinol, roeddem yn ceisio canfod a oedd angen pendant, y gellid ei ddiffinio, am y Mesur arfaethedig. Buom hefyd yn ystyried goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig a pha un a fyddai'r ddeddfwriaeth yn ei chyfanrwydd yn ymarferol ac yn cyflawni ei nod. Yn olaf, ac o weld y dystiolaeth a ddaeth i law, rhoddwyd rhywfaint o ystyriaeth i oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig.

12. Wrth lunio barn ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, ystyriasom nifer o faterion allweddol, sy'n cael eu hamlinellu'n fanwl isod.

(a) A yw'r modd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â deunyddiau ailgylchu yn ddigon agored a thryloyw?

13. Cytunai nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth fod angen mwy o dryloywder yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn delio â deunyddiau ailgylchu. Yn arbennig, credai Cylch - Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru fod diffyg tryloywder yn y trefniadau sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd.⁹

14. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ('y Gweinidog') yn glir nad oedd trefniadau presennol yr awdurdodau lleol i ddelio â deunyddiau ailgylchu yn ddigon tryloyw a chytunai fod angen gwelliannau.¹⁰

15. Wrth ymdrin â thryloywder y trefniadau presennol, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):

“At the moment, local authorities comply with the requirements that exist in legislation, so they are doing what is required.”¹¹

16. Haerodd hefyd fod y canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru¹², i helpu gyda'r gwaith o fonitro'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi¹³, 'ensures that local authorities are already

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR13.

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹² Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, *Reporting final destination of municipal waste*. Diben y canllawiau yw ei gwneud yn glir i awdurdodau lleol pa wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn dangos yn gadarn fod gwastraff trefol bioddiraddadwy wedi cael ei gyfeirio o dirlenwi.

¹³ Mae *Rheoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004* yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adoddiad i Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi pwysau'r gwastraff trefol sy'n cael ei anfon i gyfleusterau gwastraff o dan eu cyfarwyddyd, ynghyd â manylion y cyfleuster terfynol yr anfonir deunyddiau sy'n cael eu trin yn y DU iddo.

providing as much information as possible on the end destination of the recycle collected'.¹⁴

17. Eglurodd CLILC nad oedd gan y Gymdeithas unrhyw wrthwynebiad i'r awdurdodau lleol ddarparu rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'w gwastraff, lle mae'r wybodaeth honno ar gael. Serch hynny, aeth ymlaen i holi pa fudd ychwanegol y byddai hynny'n ei ddarparu.

18. Roedd tystiolaeth gan yr awdurdodau lleol yn awgrymu bod y trefniadau presennol o ran y ffordd y maent yn delio â deunyddiau ailgylchu yn ddigon agored a thryloyw.¹⁵ Dadleuai'r awdurdodau lleol, fel CLILC, eu bod eisoes yn darparu gwybodaeth am gyrchfan derfynol gwastraff drwy WasteDataFlow.¹⁶ Dywedodd Cyngor Sir Powys:

"There are already systems in place (WasteDataFlow) that allows openness and transparency of local authorities' activities."¹⁷

19. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Bro Morgannwg:

"There is also little need to make a legislative Measure on local authorities as the information is already available on the Assembly's Wastedataflow database."¹⁸

20. Yn gysylltiedig â'r uchod, gofynnodd Cyngor Bro Morgannwg pam mae mwy o dryloywder a bod yn fwy agored yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, yn enwedig o gofio gweithdrefnau adrodd ehangach yr awdurdodau lleol, er enghraifft, Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol a Lleol a Chynlluniau Gwella.¹⁹

21. Yn ei thystiolaeth, awgrymodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y byddai modd gwneud gwelliannau, er bod y trefniadau presennol yn gwneud rhywfaint i ddarparu tryloywder yn y ffordd y mae'r awdurdodau lleol yn delio â deunydd ailgylchu.²⁰ Eglurodd fod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn cyflenwi gwybodaeth ar hyn o bryd am gyrchfan terfynol deunydd ailgylchu drwy WasteDataFlow, i helpu gyda'r gwaith o fonitro'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi. Roedd hyn yn darparu 'some information about waste exported for reprocessing'.²¹

22. Aeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rhagddi i ddweud bod ei chanllawiau diweddar i'r awdurdodau lleol ar adrodd ar gyrchfan

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR1 1.

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR1, SWR4, SWR8, SWR9 ac SWR10.

¹⁶ System seiliedig ar y we yw WasteDataFlow er mwyn i awdurdodau lleol y DU gyflwyno data am wastraff trefol i'r Llywodraeth. Rhaid cofnodi data, yn ôl pwysau, yn chwarterol am weithgareddau ailgylchu, aildddefnyddio, compostio a gwaredu.

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR8.

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR1.

¹⁹ Ibid.

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR5.

²¹ Ibid.

terfynol gwastraff wedi arwain at rai gwelliannau yn y wybodaeth sy'n cael ei darparu.²² Fodd bynnag, dywedodd:

“[This] information is in the WasteDataFlow system which [...] is technically available to the public but not readily accessed by the public. It is quite a complicated system, so it does not provide the transparency that the proposed Measure seems to ask for.”²³

23. Tynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sylw hefyd at y ffaith fod y gofynion darparu gwybodaeth o dan y Mesur arfaethedig yn mynd ymhellach na'r gofynion mewn deddfwriaeth bresennol. Dywedodd:

“...the information required by the proposed Measure on final destination and recovery and disposal rates is not provided through the current legislation regimes of duty of care for movements within the United Kingdom or within the Transfrontier Shipment Regulations for export. Although the, Landfill Allowance Scheme partially provides that information, it is only insofar as it relates to diversion of biodegradable waste from landfill.”²⁴

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

24. Yn ei thystiolaeth, eglurodd Nerys Evans AC nad oedd rhai awdurdodau lleol, mewn ymateb i gais o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*, yn gallu darparu gwybodaeth am ble roedd eu hailgylchu yn digwydd; gallai rhai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth rannol; a dywedodd eraill fod peth o'u hailgylchu yn digwydd y tu hwnt i'r Gymuned Ewropeaidd (CE) ac Ardal Masnach Rydd Ewrop (EFTA) mewn gwledydd fel Tsieina, Brasil ac India.²⁵

25. Dadleuodd yn gryf fod y diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd yn gyfiawnhad digonol dros y Mesur arfaethedig a theimlai fod gan y cyhoedd yr hawl i wybod beth sy'n digwydd i'w deunydd ailgylchu.

26. Eglurodd Nerys Evans AC fod gwybodaeth am ble mae gwastraff trefol yn cael ei yrru o fewn terfynau'r DU ar gael ar hyn o bryd drwy WasteDataFlow.²⁶ Aeth ymlaen i egluro nad oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio o'r DU, yn cynnwys gwastraff sy'n cael ei gludo y tu hwnt i CE ac EFTA i gael ei adfer.²⁷

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 5, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 74, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 8 a 74, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

27. Wrth ymateb i'r awgrym nad oedd angen y Mesur arfaethedig o ystyried y mesurau sy'n bodoli'n barod i reoli trosglwyddo ac allforio gwastraff, megis *Rheoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 2007* a'r Ddyletswydd Gofal, dadleuodd Nerys Evans AC fod cydymffurfio â'r rheoliadau a'r polisi presennol yn rhywbeth gwahanol i'r Mesur arfaethedig. Dywedodd:

“...the [*Transfrontier Shipment of Waste Regulations 2007*] deal with the processing and handling of waste and aim to ensure that it is handled in an environmentally sound manner. Those duties fall to the Environment Agency. The duty of care set out in section 34 of the Environment Protection Act 1990 does not include any provisions to make information generally available to the public. Rather, it is concerned with the process by which waste is disposed of.”²⁸

(b) A ellir bodloni nod y Mesur arfaethedig drwy ddefnyddio dulliau amgen?

28. Roedd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth, a oedd yn cydymdeimlo â nod gwaelodol y Mesur arfaethedig, yn credu y byddai modd bodloni nod y Mesur heb orfod cael deddfwriaeth newydd.

29. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, awgrymodd Gwasanaethau Amgylcheddol Veolia (UK) Plc (Veolia) y gellid sicrhau mwy o dryloywder drwy ddarparu ffigurau blynyddol 'showing the destination country and facility type, for all waste flows into and out of Wales'. Aeth ymlaen i honni y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru drwy WasteDataFlow.²⁹ Roedd y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol yn rhannu'r farn hon.³⁰

30. Awgrymodd rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth y byddai modd bodloni nod y Mesur arfaethedig pe câi'r ffordd o gyhoeddi'r wybodaeth a ddarperir drwy WasteDataFlow ei gwella ac y byddai modd i hynny gael ei wneud yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.³¹ Yn ei dystiolaeth, dywedodd Cyngor Bro Morgannwg:

“...it would be simpler for the Assembly to use [information available in WasteDataFlow] and publicise it directly as it does with local authority recycling/composting and land-fill allowance performance.”³²

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR6.

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SWR1, SWR8 ac SWR12.

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR1.

31. Teimlai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y gellid bodloni amcanion tebyg i rai'r Mesur arfaethedig 'by adapting some of the current systems and arrangements'.³³ Fodd bynnag, mewn tystiolaeth atodol, fe'i gwnaeth yn glir ei bod yn cefnogi nod ac egwyddorion y Mesur arfaethedig.³⁴

32. Er bod y Gweinidog yn llwyr gefnogi nod y Mesur arfaethedig, haerodd y byddai modd ei fodloni heb yr angen am ddeddfwriaeth newydd. Dywedodd:

"...we can use existing mechanisms and, if necessary, existing powers through legislation to achieve these policy aims. Where it is practicable for local authorities to collect information from their contractors on waste is shipped, this can be recorded on the WasteDataFlow system."³⁵

33. A

"I have always been of the view that there are plenty of areas on which this Assembly might like to legislate and that we should not legislate on those areas that can be dealt with by other means."³⁶

34. Fe'i gwnaed yn glir gan y Gweinidog y dylai gwaith gael ei wneud i annog awdurdodau lleol i ddarparu ac yna i gyhoeddi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'w gwastraff, cyn ystyried y llwybr deddfwriaethol.³⁷ Aeth ymlaen i egluro, pe na bai trefn wirfoddol yn llwyddiannus, y byddai'n ystyried defnyddio pwerau presennol Llywodraeth Cymru o dan adran 30 o *Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003* ('Deddf 2003') i fodloni nod y Mesur arfaethedig. O dan Ddeddf 2003, eglurodd y Gweinidog y gallai Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth berthnasol am wastraff.³⁸ Gallai'r wybodaeth hon wedyn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd un ai gan yr awdurdodau lleol neu, yn y pen draw, gan Lywodraeth Cymru.³⁹

35. Er gwaethaf yr uchod, roedd y Gweinidog yn cydnabod y byddai'r anawsterau ymarferol a fyddai'n wynebu'r awdurdodau lleol o ran darparu gwybodaeth o dan y Mesur arfaethedig yn codi i'r un graddau mewn perthynas ag unrhyw ofynion rheoliadol a gâi eu sefydlu o dan

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR5b.

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 4, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 4 - 14, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig SWR14.

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 11 - 14, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a Llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai at Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, dyddiedig 28 Hydref 2009.

adran 30.⁴⁰ Caiff y mater hwn ei archwilio'n ddiweddarach yn yr adroddiad.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

36. Dadleuodd Nerys Evans AC yn gryf mai'r unig ffordd i sefydlu mwy o dryloywder yn y ffordd y mae'r awdurdodau lleol yn delio â deunydd ailgylchu yw drwy'r Mesur arfaethedig.⁴¹ Gwrthododd yr awgrym y byddai modd bodloni nod y Mesur arfaethedig drwy annog awdurdodau lleol i ddarparu ac yna i gyhoeddi gwybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio er mwyn ei adfer, a dywedodd:

“...[nid] yw hynny'n mynd i ddigwydd, yn realistig. Dyna pam mae angen gofyniad statudol, drwy'r Mesur arfaethedig, yn fy marn i.”⁴²

37. Mewn ymateb i awgrym y Gweinidog y gellid defnyddio pwerau presennol Llywodraeth Cymru o dan adran 30 o Ddeddf 2003 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio y tu hwnt i CE ac EFTA i gael ei adfer, haerodd Cynghorydd Cyfreithiol Nerys Evans AC:

“Bwriad Deddf 2003 yw rhoi'r hyn y byddem yn cyfeirio ato fel y gyfarwyddeb tirlenwi ar waith [...] nod y gyfarwyddeb honno yw lleihau maint y gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae pwerau yn y Ddeddf honno i wneud rheoliadau, fel y cyfeiriwyd atynt, yn adran 30. Ond, byddai'n rhaid gosod unrhyw reoliadau yng nghyd-destun y Ddeddf honno, ac nid wyf yn gwbl sicr a fyddai'r pŵer i gasglu'r wybodaeth hon yn gyfan gwbl o fewn awdurdod y Ddeddf.”⁴³

38. A

“... pwerau disgresiwn yw'r pwerau i wneud rheoliadau y gall y Gweinidog eu harfer neu beidio. Nid ydynt yn ofynion fel y gellid eu cynnwys mewn Mesur.”⁴⁴

39. Yn olaf, nododd y Cynghorydd Cyfreithiol:

“Petai rheoliadau'n cael eu gwneud, byddent yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i Weinidogion, ond ni fyddent yn mynnu bod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi.”⁴⁵

⁴⁰ Llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai at Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, dyddiedig 28 Hydref 2009.

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁴⁴ Ibid.

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

40. Wrth ymateb i lythyr gan y Cadeirydd yn ceisio eglurhad o'r uchod o ran y pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan adran 30, cadarnhaodd y Gweinidog:

“... [they] are not confined to biodegradable waste, but available in respect of anything which is waste for the purposes of the Waste Framework Directive, whether or not the thing in question is to be subject to a recovery process.”⁴⁶

41. Hefyd, ailadroddodd y Gweinidog fod nifer o ffyrdd posibl o ryddhau i'r cyhoedd y wybodaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei darparu i Lywodraeth Cymru o dan adran 30. Yn wir, haerodd 'ultimately, the Assembly Government could itself publish the information in question'.⁴⁷

(c) A oes brwdfrydedd ymysg cymunedau i ymwneud â chludo gwastraff er mwyn ei adfer?

42. Roedd rhai o'r rhai a fu'n rhoi tystiolaeth yn amau a oedd brwdfrydedd ymysg cymunedau i ymwneud â chludo gwastraff er mwyn ei adfer. Dywedodd CLILC:

“On the Waste Awareness Wales site, there is information on all the different collection facilities that exist and where you can take your goods. That is the information that the general public wants, in the main. The public wants to know how to deal with waste, where various goods can be taken to be recycled and where the local facilities are. In terms of public demand, that is the sort of information that it wants and that is what is on the website. We do not get many requests to local authorities asking where the waste is going.”⁴⁸

43. Yn gysylltiedig â'r uchod, haerodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod y cyhoedd, yn gyffredinol, am gael sicrwydd fod eu gwastraff yn cael ei ailgylchu, yn hytrach na mynd i safleoedd tirlenwi.⁴⁹ Roedd Grŵp Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) hefyd â barn debyg.⁵⁰

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

44. Yn ei thystiolaeth, haerodd Nerys Evans AC:

⁴⁶ Llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai at Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, dyddiedig 28 Hydref 2009.

⁴⁷ Ibid.

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 113, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

“Mae diddordeb y cyhoedd mewn cael gwybod beth sy’n digwydd i ddeunydd ailgylchu’n amlwg, dim ond o ddarllen storïau yn y cyfryngau. Ni fyddai’r cyfryngau’n trafod storïau am ble yr ymdrinnir â deunydd ailgylchu os nad oeddynt yn teimlo bod y cyhoedd yn awyddus i gael gwybod hynny.”⁵¹

45. A

“Dengys adroddiad Enviros ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru fod ychydig o awdurdodau lleol yn y DU yn cyhoeddi’r wybodaeth hon eisoes, ac felly mae’n amlwg fod yr awdurdodau hyn yn gweld y budd o wneud hynny a gwelant fod y cyhoedd, eu hetholwyr, yn awyddus i gael yr wybodaeth honno. Mae Partneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf, yr wyf wedi cyfeirio ati’n flaenorol, yn enghraifft dda o’r dull hwnnw o weithredu, o ran bod yr awdurdod lleol yn gweld bod angen trosglwyddo’r wybodaeth hon, bod y cyhoedd yn awyddus i weld beth sy’n digwydd i’w gwastraff, a’r awdurdod yn delio gyda’r mater yn wirfoddol.”⁵²

46. Yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru, dywed cwmni Enviros Consulting Limited:

“A review of all local authority websites in the UK found that very few authorities are reporting publicly on the destinations of their recycle.”⁵³

47. A

“Some of the information relates to the end product that recycle is converted into, others actually name their UK based processors and reprocessors; none were found to name overseas processors. A small number of local authorities report that some of their wastes (typically plastics) are being exported overseas to places like China, but they do not provide any further information than this.”⁵⁴

48. Fel y dangosir uchod, nid yw’r awdurdodau lleol hynny ar draws y DU sy’n darparu wybodaeth ar hyn o bryd am allforion yn darparu wybodaeth mor fanwl ag y byddai rhaid i awdurdodau lleol Cymru geisio’i darparu o dan ofynion adran 55A(5).

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR1 4a.

⁵⁴ Ibid.

(d) Cwmpas y Mesur arfaethedig

49. Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Mesur arfaethedig yn deillio o Fater 12.5 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006⁵⁵ ac, felly, mae ei gwmpas wedi'i gyfyngu i awdurdodau lleol. Yn sgil hynny, mae darpariaethau allweddol y Mesur arfaethedig yn gymwys i 'awdurdodau casglu gwastraff yng Nghymru neu i awdurdodau gwaredu gwastraff yng Nghymru', h.y. gwastraff trefol.

50. Mae Gorchymyn Arfaethedig Llywodraeth Cymru ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff ('y Gorchymyn arfaethedig') yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Os caiff ei wneud, bydd y Gorchymyn arfaethedig yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff.

51. Roedd yn oblygedig mewn rhai darnau o dystiolaeth fod cwmpas y Mesur arfaethedig yn rhy gul gan nad yw ond yn gymwys i wastraff y mae'r awdurdodau lleol yn ymdrin ag ef. Ar ben hynny, roedd y Mesur arfaethedig yn gyfyngedig i'r ganran fach sy'n cael ei hallforio y tu hwnt i derfynau CE ac EFTA.

52. Mynegodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth siom nad oedd y Mesur arfaethedig ond yn gymwys i wastraff trefol, nad yw i gyfrif am ddim ond 10 y cant o holl wastraff Cymru.⁵⁶ Dadleuodd CLILC:

“...there should be equity across all waste streams and...it is just as important to know what happens to recyclate collected from industrial, commercial and other activities in Wales as that collected by councils.”⁵⁷

53. Haerodd CLILC y byddai'r Gorchymyn arfaethedig, pe câi ei basio, yn darparu cyfle i'r Cynulliad i ddod â Mesur gerbron a fyddai'n gymwys i'r holl sectorau gwastraff er mwyn ymdrin â'r mater hwn mewn ffordd fwy cyfannol.⁵⁸

54. Yn yr un modd, argymhellai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y dylid ehangu cwmpas y Mesur arfaethedig i gynnwys pob sector gwastraff. Dywedodd:

“If the [proposed] LCO does come into force we do agree there is an opportunity to look at this area more holistically to encompass an approach that could consider a broader scope of waste streams beyond the municipal stream, which could be better than the narrow scope within the proposed Measure.”⁵⁹

⁵⁵ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, c.32.

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR1, SWR8 ac SWR11.

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR11.

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 12, a 26 - 29, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig SWR11.

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

55. Tynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sylw hefyd at y ffaith nad yw'r Mesur arfaethedig ond yn ymdrin â gwastraff sy'n cael ei gludo y tu hwnt i CE ac EFTA i gael ei adfer, ac nad yw hynny'n ddim ond canran fach o'r cyfanswm gwastraff sy'n cael ei adfer. Roedd yn pryderu y gallai gwybodaeth a gâi ei chyhoeddi o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig, o'i thynnu o'i chyd-destun, ddenu sylw negyddol yn y cyfrangau ac y gallai hynny yn ei dro danseilio ffydd y cyhoedd mewn ailgylchu. I'r perwyl hwn, awgrymodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y dylid ystyried ehangu cwmpas y Mesur arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth fwy cynhwysfawr am ble y caiff eu holl ddeunyddiau ailgylchu eu hanfon.⁶⁰ Dywedodd:

“...focusing just on the small amount of waste that is exported actually might have a negative impact because it suggests that all the material that is collected is exported when actually only a very small proportion of [the material that is collected for recycling] ends up in facilities abroad.”⁶¹

56. A

“...if the Measure proceeds as a requirement for municipal waste only, then we would prefer that it applies to all municipal wastes recycled to enable the public to see where all the materials that they put out for recycling are reprocessed. This would provide a proper context in relation to shipments to non EC and EFTA countries.”⁶²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

57. Yn ei thystiolaeth, cadarnhaodd Nerys Evans AC fod cwmpas y Mesur arfaethedig yn gyfyngedig i wastraff trefol gan mai o Fater 12.5 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*⁶³ y mae ei gymhwysedd deddfwriaethol yn deillio, a bod y Mater hwnnw'n ymdrin â 'the making of arrangements by relevant Welsh authorities to secure improvements in the way in which their functions are exercised'.⁶⁴

58. Wrth ymateb i'r awgrym y dylai'r Mesur arfaethedig ymestyn i ddarparu gwybodaeth am yr holl wastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu, eglurodd Nerys Evans AC:

“Mae'r wybodaeth am ble y mae'n gwastraff yn cael ei anfon o fewn ffiniau'r Deyrnas Unedig ar gael ar hyn o bryd drwy'r

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig SWR5b.

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR5b.

⁶³ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, c.32.

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 57 - 61, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

system WasteDataFlow. Felly, yn dechnegol, mae'r wybodaeth yno, ond mewn gwirionedd mae'n anodd iawn dehongli a dadansoddi'r system WasteDataFlow fel ag y mae. Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi gwybod am wastraff a gaiff ei anfon y tu hwnt i ffiniau'r Deyrnas Unedig, a dyna lle mae fy Mesur arfaethedig yn dod i mewn. Felly, dyna pam yr ydym wedi dewis ffiniau'r Gymuned Ewropeaidd ac Ardal Masnach Rydd Ewrop."⁶⁵

59. Ac

"Yr ydym wedi dewis ffiniau Ewrop achos yr ydym yn cymryd bod y cyfleusterau o fewn ffiniau Ewrop o'r un safon ag unrhyw gyfleusterau yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig. Byddem wedi gallu gosod y Deyrnas Unedig fel y ffin, ond o edrych ar safonau ailgylchu o fewn ffiniau Ewrop, gwelwn y byddai'n well inni osod Ewrop fel y ffin, a bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwybod am bopeth sy'n cael ei allforio y tu hwnt i'r ffin honno."⁶⁶

60. Er gwaethaf yr uchod, dywedodd Nerys Evans AC y byddai'n ystyried ymestyn y gofyniad yn amodol ar unrhyw argymhellion a gâi eu gwneud gan y Pwyllgor.⁶⁷

(e) Amseriad y Mesur arfaethedig

61. Dadleuodd CLILC yn gryf fod y Mesur arfaethedig yn gynamserol o ystyried y cyfleoedd a gâi eu creu yn sgil y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff.⁶⁸

62. Wrth ymdrin â faint o amser y gallai ei gymryd i awdurdodau lleol ail-negodi contractau gwastraff er mwyn sicrhau y gallent fodloni gofynion y Mesur arfaethedig, awgrymodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y byddai'n fwy synhwyrol efallai disgwyl nes i'r Gorchymyn arfaethedig gael ei wneud cyn mynd i'r afael â'r mater hwn.⁶⁹

63. Mewn cyferbyniad, dadleuodd Cylch ei bod yn bwysig, o ystyried y diffyg cynnydd a wnaed o ran symud y Gorchymyn arfaethedig ymlaen, dyfalbarhau gyda'r Mesur arfaethedig. Awgrymodd y gellid cyflwyno deddfwriaeth bellach pe byddai rhaid unwaith y byddai'r Gorchymyn arfaethedig wedi cael ei wneud.⁷⁰

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 67, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 26 a 27, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig SWR11.

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 181, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

64. Wrth ymateb i'r pwyntiau uchod, eglurodd y Gweinidog fod cynnydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig. Eglurodd y byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff yn cael ei gyflwyno yn yr hydref ac, ar yr amod ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad a chan ddau Dŷ'r Senedd, ei bod yn debygol y câi Gymeradwyaeth Frenhinol yn gynnwys yn 2010.⁷¹

65. Pan holwyd hi pa mor briodol oedd amseriad y Mesur arfaethedig o gofio'r Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ystyried y Mesur arfaethedig yn gynamserol gan ei fod wedi codi materion pwysig a oedd yn berthnasol i'r drafodaeth ehangach ynglŷn â gwastraff. Serch hynny, ailadroddodd nad oedd rhaid wrth y Mesur arfaethedig er mwyn cyflawni ei nod.⁷²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

66. Teimlai Nerys Evans AC yn gryf fod y Mesur arfaethedig yn amserol.⁷³ Cydnabu dystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â hyn y Gorchymyn arfaethedig, ond tynnodd sylw at y ffaith nad oedd y Gorchymyn wedi cael ei wneud eto. Hefyd, dadleuodd Nerys Evans AC ei bod yn annhebygol y byddai'r Gweinidog yn ystyried cyflwyno Mesur ehangach ar ôl i'r Gorchymyn arfaethedig roi pŵer i'r Cynulliad gan ei bod yn ffafrio dull gweithredu gwirfoddol.⁷⁴

67. Eglurodd Nerys Evans hefyd y byddai modd, unwaith y câi'r Mesur ei basio, ei ddiwygio i ehangu ei gwmpas ar ôl i'r Gorchymyn arfaethedig gael ei wneud, pe bai angen.⁷⁵

(f) Gogleddolau ymarferol y Mesur arfaethedig

(i) Y gofyniad i ddarparu gwybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio y tu hwnt i CE ac EFTA i gael ei adfer

68. Tynnodd rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth sylw at y ffaith nad oes gan awdurdodau lleol y pŵer i orfodi cwmnïau gwastraff preifat i ddarparu gwybodaeth am gyrchfan terfynol gwastraff ac y byddent, felly, yn cael anhawster i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5).⁷⁶ Yn wir, dadleuwyd, yn hytrach na chynnwys awdurdodau lleol, fel a gynigir yn y Mesur, y dylid rhoi gofynion ar

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 50 – 53, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 66, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 53, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a Cofnod y Trafodion, paragraff 66, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR4, SWR8, SWR11 ac SWR12.

gwmniau gwastraff preifat i ddarparu'r data gwastraff angenrheidiol.⁷⁷ Roedd CLILC yn derbyn na fyddai hynny'n bosibl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad. Fodd bynnag, eglurwyd y byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, unwaith y câi ei wneud, yn darparu cyfle i'r Cynulliad i gyflwyno Mesur ar draws pob sector gwastraff, a allai gynnwys gofyniad ar gwmniau gwastraff preifat i ddarparu gwybodaeth berthnasol i awdurdodau lleol.⁷⁸

69. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, haerodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y byddai angen i'r awdurdodau lleol 'to review their contracts with waste management companies'⁷⁹ i sicrhau bod y wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu. Fodd bynnag, aeth ymlaen i egluro y gallai awdurdodau lleol gael anhawster i ymgorffori'r gofynion angenrheidiol mewn contractau sy'n bodoli'n barod.⁸⁰

70. Yn yr un modd, awgrymodd y Gweinidog:

"Local authorities can build in contract requirements to help them monitor the movement of the recyclate that they produce..."⁸¹

71. Er hynny, aeth ymlaen i egluro y byddai'n cymryd amser i gyflwyno hyn 'not least because it cannot be inserted into existing contract requirements without significant cost for local authorities'.⁸²

72. Cydnabu CLILC fod dichon cynnwys darparu gwybodaeth fel amod o gontract ac y gellid gwneud hynny fel y byddai contractau'n cael eu hailnegodi.⁸³ Serch hynny, cododd bryderon y byddai cwmniau gwastraff preifat yn anfoddog efallai i ymrwymo i gontractau o'r fath ac y gallai awdurdodau lleol gael pris is am eu deunyddiau ailgylchu, oherwydd y cyfyngiadau ar eu gallu i negodi, wrth i gwmniau geisio gwneud iawn am y gost o ddarparu'r wybodaeth ofynnol.⁸⁴ Yn y pen draw, dadleuai CLILC, 'Wales could become less competitive because of the regulatory and reporting regime this measure imposes'.⁸⁵

73. Wrth ymdrin â'r uchod, dywedodd y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol na fyddai cynnwys darparu'r wybodaeth angenrheidiol fel amod o gontract o reidrwydd yn atal cwmniau gwastraff preifat rhag gweithredu yng Nghymru. Fodd bynnag, aeth ymlaen i awgrymu y

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR8; a Chofnod y Trafodion, paragraff 12, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 12, 22, 27, a 49 – 53, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR5.

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig, SWR5B.

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR14.

⁸² Ibid.

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 16 – 18, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR11.

gallai 'force local authorities...to choose between genuine public services and providing this extremely bureaucratic information'.⁸⁶

74. Cyflwynwyd tystiolaeth gref i'r Pwyllgor yn awgrymu y byddai'n eithriadol o anodd, yn amhosibl efallai, i awdurdodau lleol ddarparu'r lefel o fanylder sy'n ofynnol o dan adran 55A(5).

75. Fel y datganwyd cyn hyn, dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod peth gwybodaeth am gyrchfan terfynol deunydd ailgylchu yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd drwy WasteDataFlow. Fodd bynnag, fe'i gwnaeth yn glir, er y gellid disgwyl yn rhesymol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am ble mae deunydd ailgylchu'n mynd, na fyddent o reidrwydd yn gallu darparu'r lefel o fanylder sy'n ofynnol yn ôl adran 55A(5).⁸⁷ Awgrymodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod pa mor hawdd y gallai awdurdodau lleol gael y wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5) 'depends on who [local authorities] use for their recycling services and how complex [their] arrangements are'.⁸⁸ Roedd y Gweinidog yn cytuno â'r farn hon, a dywedodd:

"...there are times when the information is perfectly easy to collect...where these things become more complex and mixed, it does become harder."⁸⁹

76. Wrth ymhelaethu ar yr uchod, eglurodd y Gweinidog, lle mae awdurdodau lleol yn delio â chyfryngwyr (h.y. proseswyr a broceriaid) sy'n allforio deunydd yn uniongyrchol, y dylai fod yn bosib i'r awdurdodau lleol gael gwybodaeth am y cyrchfan terfynol ond nid o reidrwydd i'r lefel o fanylder sy'n ofynnol o dan adran 55A(5). Dywedodd, mewn achosion lle mae sawl cam rhwng trosglwyddo deunyddiau o awdurdod lleol i law'r prosesydd terfynol, y byddai anawsterau'n codi o ran darparu gwybodaeth gywir.⁹⁰ Dywedodd:

"There are some practical difficulties in monitoring the transport of recyclate. Waste collected for recycling is often managed by material brokers to whom it is supplied by local authorities. This waste may be aggregated with waste from other sources before being sent abroad. Whilst it might be possible for the first destination of that aggregated waste to be identified, it would be extremely difficult to secure accurate data to meet all the requirements of the Measure."⁹¹

77. Cododd llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth bryderon fod y trefniadau i ddelio â deunydd ailgylchu yn gyfryw fel bod olrhain

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 116 a 117, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 40 – 42, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig SWR5 ac SWR5b.

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig SWR14.

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR14.

gwastraff o awdurdodau lleol unigol yn gallu bod yn anodd.⁹² Byddai problemau neilltuol yn codi lle mae deunyddiau'n cael eu cymysgu a'u trosglwyddo i Gyfleuster Adennill Deunydd i'w didoli ar y cyd â deunyddiau o ffynonellau eraill. Ar y pwynt hwn, dywed y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol:

“Recyclables are increasingly frequently collected at the kerbside commingled, and then sent to a MRF to be sorted into material streams before despatch to reprocessors. It is normal practice for MRFs to handle material from a number of local authorities, and to send the processed material to a range of end markets, both UK-based and overseas.”⁹³

78. Yn dilyn o hyn, eglurodd sawl un o'r rhai a roddodd dystiolaeth fod deunydd ailgylchu yn aml yn cael ei swmp gasglu cyn cael ei allforio, sydd hefyd yn ei gwneud yn anodd ei olrhain yn ôl i'r ffynhonnell wreiddiol.⁹⁴

79. Yn ei thystiolaeth, haerodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y byddai awdurdodau lleol yn cael anhawster i gyflawni'r gofynion yn adran 55A(5)(b), (d) ac (e) gan nad oes darpariaeth ddeddfwriaethol ar hyn o bryd sy'n eu galluogi i gael gafael ar y math hwn o wybodaeth.⁹⁵ Dywedodd:

“It is assumed that under compliance with the Transfrontier Shipment of Waste Regulations, Green List recyclate is of a good enough quality to be fully recovered, so the proportion of materials from reprocessing facilities that are disposed of is quite low and derived from many sources of waste input to the facility. This would be a considerable burden on the receiving plant to supply, with only contractual requirements to underpin the provision and there is little prospect of any verification of information provided.”⁹⁶

80. Gan gyfeirio'n benodol at ofyniad adran 55A(5)(d), dywedodd y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol:

“[it] would be an onerous requirement, as once ownership of the material has passed to the reprocessor (e.g. the paper mill) it is under no obligation to provide information on how the material is used in its facility.”⁹⁷

81. Yn olaf, awgrymodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y gallai fod yn anodd i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i fodloni gofyniad

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR4, SWR5, SWR5B, SWR6, SWR7, SWR9, ac SWR10.

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR7.

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR4, SWR5, SWR5B, SWR6, SWR7, SWR9, ac SWR10.

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR5b.

⁹⁶ Ibid.

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR7.

adran 55A(5)(f) os oes deunydd yn mynd drwy froceriaid yn y gyrchwlad, lle gallai gael ei gymysgu gyda deunyddiau o ffynonellau eraill a chael ei anfon i gyrchfannau terfynol amrywiol.⁹⁸

82. Wrth ymdrin â gallu awdurdodau lleol i gipio'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5), dywedodd Enviro Consulting Limited⁹⁹:

“Given that there is an existing regulatory framework that already captures information on waste exported outside of the UK, including outside the EU and EFTA, there is an opportunity for the local authorities to use this system, through access to completed Annex VII Forms, to source details as required in the proposed Measure.”¹⁰⁰

83. Amlinellodd ddau opsiwn y gellid eu defnyddio i gipio gwybodaeth ar Ffurflenni Atodiad VII. Yn gyntaf, awgrymodd Enviro Consulting Limited fod dyletswydd yn cael ei rhoi ar awdurdodau lleol i gasglu Ffurflenni Atodiad VII oddi wrth Gyfleusterau Adennill Deunydd, proseswyr a broceriaid am bob llwyth o wastraff. Rhagwelai y câi hyn ei wneud drwy gynnwys dychwelyd Ffurflenni Atodiad VII i awdurdodau lleol fel amod contract. Fodd bynnag, aeth Enviro Consulting Limited ymlaen i egluro fod nifer o rwystrau ymarferol rhag gweithredu'r opsiwn hwn. Amlinellwyd y rhain ym mharagraffau 69 i 81).

84. Yr ail opsiwn a gyflwynwyd gan Enviro Consulting Limited, a argymhellwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, oedd y dylai Llywodraeth Cymru geisio gwelliant i *Reoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 2007* i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau gwastraff preifaf anfon Ffurflenni Atodiad VII i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am bob llwyth o wastraff Rhestr Werdd sy'n deillio o Gymru. Aeth ymlaen i egluro y gallai'r wybodaeth hon wedyn gael ei throsglwyddo i'r awdurdodau lleol, i gael ei defnyddio a'i chyhoeddi.

85. Mae trefniadau tebyg i'r rhai a amlinellwyd yn union uwchben ar waith yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ac roedd y dystiolaeth a ddaeth i law Enviro Consulting Limited wrth iddo wneud ei ymchwil yn awgrymu bod 'the Annex VII reporting system appears to work well' yn yr Alban. Er gwaethaf hyn, tynnodd Enviro Consulting Limited sylw at nifer o gyfyngiadau i'r wybodaeth sy'n cael ei chipio o dan gyfundrefn yr Alban, a fyddai'r un mor wir yng Nghymru pe câi cyfundrefn debyg ei chyflwyno. Eglurodd:

“...waste leaving Wales to be processed in England prior to export would not be captured if the requirement to submit Annex VII Forms was extended to Wales [only]. This omission

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR5B.

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR1 4a .

¹⁰⁰ Ibid.

could significantly affect the ability of local authorities to offer full transparency on waste destinations.”¹⁰¹

86. Cafodd y farn hon ei mynegi hefyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.¹⁰²

87. Yn yr un modd, eglurodd y Gweinidog bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi awgrymu, mewn gohebiaeth ddiweddar, y gallai fod yn ddichonadwy i Lywodraeth Cymru roi'r un trefniadau â'r Alban a Gogledd Iwerddon ar waith. Fodd bynnag, mewn ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog:

“...since Welsh recycle may be exported from English ports, the value of a Welsh-only regime may be questioned.”¹⁰³

88. Er nad oedd yn glir o dystiolaeth y Gweinidog, mae Cyngorydd Cyfreithiol y Pwyllgor wedi cadarnhau nad oes gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiwygio *Rheoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 2007*.

89. Yn ychwanegol at yr anawsterau ymarferol a amlinellwyd mewn perthynas â defnyddio Ffurflenni Atodiad VII, mae'n bwysig nodi nad yw'r Ffurflenni hyn yn darparu'r union lefel o fanylder sy'n ofynnol o dan adran 55A(5). Ni fyddent felly ond yn mynd ran o'r ffordd i helpu awdurdodau lleol i fodloni gofynion penodol y Mesur arfaethedig mewn perthynas â darparu gwybodaeth. Cydnabu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac Enviro Consulting Limited mai dyna'r sefyllfa.¹⁰⁴

90. Mewn tystiolaeth, awgrymodd y Gweinidog ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y gellid yn rhesymol ddisgwyl i'r awdurdodau lleol ddarparu'r lefel o fanylder sy'n cael ei rhyddhau gan Bartneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf, sy'n cyhoeddi manylion faint o wastraff sy'n cael ei allforio mewn tunelli metrig ynghyd â gwybodaeth gyffredinol am ble y caiff ei gludo iddo.¹⁰⁵ Er hynny, ail-gadarnhaodd y Gweinidog y byddai modd cyflawni hyn drwy weithredu gwirfoddol heb fod angen y Mesur arfaethedig.

91. Yn yr un modd, fel y crybwyllwyd eisoes, cytunai'r Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol a Veolia ei bod yn rhesymol ac ymarferol i'r awdurdodau lleol sicrhau data cyfun, yn flynyddol, yn dangos y deunyddiau a ailgylchwyd yng Nghymru, y DU, Ewrop a thu hwnt i CE

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR14a.

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraffau 50 – 51, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig, SWR14a.

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a Chofnod y Trafodion, paragraff 55, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

ac EFTA.¹⁰⁶ Yn wir, haerodd y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol:

“That is feasible and it is interesting information at local authority and public level.”¹⁰⁷

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

92. Yn ei thystiolaeth, dadleuodd Nerys Evans AC fod y wybodaeth sy'n ofynnol i alluogi'r awdurdodau lleol i gyflawni gofynion adran 55A(5) eisoes ar gael.¹⁰⁸ Haerodd fod y wybodaeth hon gan y rhai sy'n ymwneud â threfniadau ailgylchu ac nad yw felly ond 'just a matter of getting it to filter down' ac eglurodd:

“... y bwriad yw ei gwneud yn amod o'r cytundeb bod pw y bynnag sy'n ymdrin â'r gwastraff yn rhoi'r wybodaeth i'r awdurdodau lleol.”¹⁰⁹

93. Cydnabu Nerys Evans AC y byddai hyn yn cael ei wneud wrth ailnegodi contractau, ac y byddai'n cymryd amser.¹¹⁰

94. Wrth ymdrin â'r pryderon a godwyd ynglŷn â gallu awdurdodau lleol i ddarparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni gofynion adran 55A(5), eglurodd Nerys Evans AC fod y Mesur arfaethedig wedi cael ei adolygu, yng ngoleuni'r ymatebion ymgynghori, i gynnwys adran 55A(8) a (9). Tynnodd sylw at y ffaith fod y darpariaethau hyn yn ymdrin ag achosion lle nad yw'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5) yn cael ei dal gan yr awdurdod lleol ac nad yw ar gael iddo. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i gael gafael ar y wybodaeth a chynnwys manylion amdani yn ei ddatganiad.¹¹¹

95. Dadleuodd Nerys Evans AC hefyd fod rhai awdurdodau lleol ar draws y DU eisoes yn cyhoeddi gwybodaeth am allforio gwastraff i'w adfer, sy'n awgrymu nad oedd dim i rwystro awdurdodau lleol yng Nghymru rhag cael gafael ar y wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5).¹¹²

96. Wrth ymateb i'r pryderon a godwyd y byddai'n anodd i'r awdurdodau lleol ddarparu'r lefel o fanylder sy'n ofynnol o dan adran 55A(5), eglurodd Nerys Evans AC fod y gofynion penodol a nodir yn

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR6; a Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 106, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 17 ac 81, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 72, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 72, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 92, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

adran 55A(5) (a) i (f) wedi cael eu dewis am ‘fod yn rhaid i’r Mesur arfaethedig fod yn ystyrlon’.¹¹³

97. Aeth ymlaen i nodi bod Enviros Consulting Limited wedi datgan bod y rhan fwyaf o’r wybodaeth sy’n ofynnol o dan adran 55A(5) ar gael ar Ffurflenni Atodiad VII.¹¹⁴

98. Cytunodd Nerys Evans AC i ystyried diwygio gofynion adran 55A(5) i adlewyrchu’r wybodaeth ar Ffurflenni Atodiad VII yn fwy cywir, yn amodol ar argymhellion y Pwyllgor.¹¹⁵

(ii) Effaith bosibl y Mesur arfaethedig ar gyfraddau ailgylchu

99. Soniodd pawb a roddodd dystiolaeth am ganlyniadau posibl y Mesur arfaethedig. Er i rai awgrymu y gallai’r Mesur arfaethedig gael effaith bositif, cododd y mwyafrif bryder difrifol y gallai gael effaith negyddol ar gyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu.

100. Roedd teimlad cyffredinol y gallai storïau negyddol yn y cyfryngau am awdurdodau lleol sy’n allforio gwastraff i’w ailgylchu annog y cyhoedd i beidio ag ailgylchu. Gallai hyn arwain at gynnydd yn y gwastraff sy’n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a byddai’n ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol gyrraedd eu targedau ailgylchu.

101. Yn ei thystiolaeth, dadleuodd CLILC y gallai’r Mesur arfaethedig ‘jeopardise public confidence in recycling’. Dywedodd:

“There is some really good work going on across Wales at the moment to encourage the uptake of recycling...and we are seeing participation rates increase and recycling on an upward trend. That is all good news and very positive. Our concern about the proposed Measure is that it seems to be predicated on the basis that if stuff is not being dealt with locally, it is being exported and that it is therefore a waste of people’s time bothering to recycle...”¹¹⁶

102. Roedd eraill a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol a Veolia a’r Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol yn rhannu barn debyg.¹¹⁷

103. Yn ychwanegol ac fel y crybwyllwyd yn flaenorol, tynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sylw at y ffaith nad yw’r Mesur arfaethedig ond yn canolbwyntio ar y ganran fach o wastraff sy’n cael ei hanfon i wledydd y tu hwnt i CE ac EFTA. Mynegodd bryder, felly, y gallai hyn, o’i dynnu o’i gyd-destun, arwain at sylw negyddol yn y

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹¹⁴ Ibid.

¹¹⁵ Ibid.

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR2, SWR3, SWR4, SWR5, SWR6, SWR7, SWR8, SWR11 ac SWR12.

cyfryngau, ac y gallai hynny gael effaith niweidiol ar gyfraddau ailgylchu.¹¹⁸

104. Yn ei dystiolaeth, dywedodd WRAP fod storïau negyddol yn y cyfryngau am allforio gwastraff dramor wedi achosi gostyngiad yn y nifer o 'committed recyclers'.¹¹⁹

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

105. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Nerys Evans AC yn awgrymu, o ganlyniad i gyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Mesur arfaethedig:

"... y bydd trigolion yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu sy'n agosach at darddle'r deunydd ailgylchu na'r rhai sydd ymhellach i ffwrdd. Disgwylir hefyd y bydd cyhoeddi gwybodaeth yn arwain at fwy o ddi-ddordeb, ac felly mwy o gyfranogi, mewn ailgylchu."¹²⁰

106. Yn ei thystiolaeth, haerodd Nerys Evans AC fod y cyfraddau cyfranogi'n codi pan fydd gan y cyhoedd fwy o wybodaeth am ailgylchu. Eglurodd fod gwybodaeth am ailgylchu a roddwyd i drigolion safle tai cymdeithasol ym Mwrdeistref Barnet yn Llundain wedi arwain at gynydd yn y cyfraddau cyfranogi o 65 y cant i 90 y cant.¹²¹ Hefyd, eglurodd nad oedd y cyfraddau cyfranogi wedi gostwng yng Ngwlad yr Haf, sydd ar hyn o bryd yn cyhoeddi gwybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio.¹²²

107. Gwrthododd Nerys Evans AC yr awgrym y gallai'r Mesur arfaethedig arwain at ostyngiad yn y cyfraddau ailgylchu a haerodd ei fod wedi'i seilio ar y dybiaeth 'na fydd y cyhoedd yn deall yr wybodaeth y bydd yn ei chael'. Aeth ymlaen i egluro na ddylai hyn fod yn broblem cyhyd â bo'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Mesur arfaethedig, pan gaiff ei chyhoeddi, yn cael ei hegluro'n iawn gan yr awdurdodau lleol a dywedodd:

"...it is up to local authorities to explain why they are recycling in a certain way or in certain countries."¹²³

108. Dadleuodd Nerys Evans AC yn gryf na ddylai fod ar awdurdodau lleol ofn rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd am yr hyn sy'n digwydd i'w deunydd ailgylchu. Yn wir, awgrymodd ei bod yn bwysig 'ymddiried

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig SWR5b.

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 150, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹²⁰ Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-07-EM-S1, paragraff 3.3.

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 28 - 29, a 113, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a Chofnod y Trafodion, paragraff 151 - 152, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹²² Cofnod y Trafodion, paragraff 151 - 152, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

yn y cyhoedd i ddelio â'r wybodaeth honno ac ymddwyn yn gyfrifol gyda hi'.¹²⁴

Ein barn ni

109. Hoffem ei gwneud yn glir ein bod, wrth lunio barn ar y Mesur arfaethedig, wedi gwahaniaethu'n glir rhwng cefnogi nod gwaelodol y Mesur arfaethedig a chefnogi'r egwyddorion cyffredinol. Er mwyn inni gefnogi'r egwyddorion cyffredinol, byddai rhaid inni fod yn sicr:

- ein bod yn cefnogi nod y Mesur arfaethedig;
- ein bod wedi ein hargyhoeddi bod gweithredu deddfwriaethol ar ffurf y Mesur arfaethedig (neu un sy'n debyg iddo yn fras) yn angenrheidiol; a
- bod y Mesur arfaethedig yn ddichonadwy ac y gall wireddu ei nod.

110. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a ddaeth i law fod lefelau amrywiol o gefnogaeth i'r Mesur arfaethedig. Nodwn fod lleiafrif o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn llwyr gefnogi nod ac amcanion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Cafodd y gefnogaeth honno ei rhoi'n rhannol ar y sail nad yw'r trefniadau presennol yn ddigon tryloyw, neu y gellid gwella'r trefniadau hynny. Hefyd, awgrymwyd y gallai'r Mesur arfaethedig helpu i ddatblygu seilwaith ailgylchu lleol a helpu i atal gwastraff rhag cael ei waredu'n anghyfreithlon mewn gwledydd eraill.

111. Nodwn nad oedd y mwyafrif o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, a bod rhai yn gwrthwynebu gweithredu deddfwriaethol yn gryf. Wrth wrthwynebu'r deddfwriaeth, ymysg y rhesymau a roddwyd roedd yr awgrym fod y Mesur arfaethedig wedi'i seilio ar y dybiaeth nad oedd dim budd mewn allforio gwastraff i'w ailgylchu; y gallai danseilio hyder y cyhoedd mewn ailgylchu; ac nad oedd yn cydnabod cymhlethdod y farchnad ar gyfer deunyddiau ailgylchu. Hefyd, dadleuai'r rhai a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol eu bod eisoes yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am gyrchfan terfynol gwastraff ac y byddai'r Mesur arfaethedig yn faich gweinyddol dianghenraid.

112. Nodwn farn y Gweinidog y byddai modd cyflawni nod y Mesur arfaethedig drwy annog awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio i'w adfer. Pe na bai hynny'n llwyddiant, awgrymodd y gellid defnyddio pwerau presennol Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth o'r fath.

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

113. Ni waeth beth oedd eu safbwynt cyffredinol ynglŷn â'r Mesur arfaethedig, nodwn i'r rhan fwyaf o'r rhai a roddodd dystiolaeth godi pryderon ynglŷn â'r goblygiadau ymarferol ac ariannol i awdurdodau lleol ac eraill wrth gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth.

114. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law am y diffyg tryloywder yn y trefniadau presennol o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn delio â deunydd ailgylchu, yn enwedig y deunydd sy'n cael i allforio i'w adfer. Rydym yn derbyn felly fod modd gwneud gwelliannau yn y cyswllt hwn ac y dylai hynny ddigwydd. Yn wyneb hynny, **rydym yn llwyr gefnogi nod y Mesur arfaethedig**. Fodd bynnag, ni chredwn fod y Mesur arfaethedig yn angenrheidiol i wireddu ei nod, ac awgrymw'n fod modd gwireddu'r nod heb greu deddfwriaeth. Ar ben hynny, rydym yn amau nad y Mesur arfaethedig yw'r ffordd fwyaf priodol nac effeithiol o ddenu cymunedau lleol i ymddiddori yn yr agenda ailgylchu ehangach. Yn olaf, rydym yn pryderu y byddai'r Mesur arfaethedig yn rhoi baich ychwanegol a dianghenraid ar awdurdodau lleol ac nad yw'n cynrychioli defnydd effeithlon nac effeithiol o adnoddau. Am y rhesymau hyn, **ni allwn gefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig**. Fodd bynnag, mae Mohammed Ashgar AC wedi ei gwneud yn glir ei fod yn cefnogi nod ac egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

115. Nodir manylion pellach am sut y daethom i'n penderfyniad ynglŷn ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig isod.

116. Nodwn mai'r prif gyfiawnhad am y Mesur arfaethedig a gyflwynwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol yw nad yw'r trefniadau presennol o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn delio â deunydd ailgylchu, yn enwedig pan gaiff gwastraff ei gludo y tu allan i CE ac EFTA i'w adfer, yn ddigon tryloyw ac nad yw ond yn iawn a phriodol fod y cyhoedd yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn sy'n digwydd i'w deunydd ailgylchu. Rydym yn derbyn nad oes digon o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd am wastraff sy'n cael ei allforio i'w adfer ac rydym yn cytuno felly fod modd gwneud gwelliannau yn y cyswllt hwn ac y dylai hynny ddigwydd. Fodd bynnag, teimlwn yn gryf fod modd cyflawni hyn heb fod angen y Mesur arfaethedig. Fe'n calonogir gan dystiolaeth y Gweinidog a chroesawn yr ymrwymiad y mae wedi'i roi i ymchwilio ymhellach i drefn wirfoddol i awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth am allforion gwastraff. Credwn fod yr ymateb hwnnw'n un cymesur a'i fod yn ffordd synhwyrol ymlaen. I'r perwyl hwn, anogwn y Gweinidog i ddechrau gweithio gyda'r awdurdodau lleol ar y mater hwn cyn gynted ag sy'n ymarferol. Yn dilyn o hynny, rydym yn fodlon y gallai pwerau presennol Gweinidogion Cymru o dan adran 30 o *Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003* gael eu defnyddio i orfodi awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio i'w adfer. Rydym yn derbyn y byddai modd defnyddio'r pwerau hyn pe na bai'r drefn wirfoddol a amlinellwyd uchod yn llwyddiant.

117. Rydym yn amau a oes archwaeth ymysg y cyhoedd am y math o wybodaeth y byddai gofyn i awdurdodau lleol ei darparu o dan y Mesur arfaethedig. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu bod y cyhoedd, mewn termau syml, am gael sicrwydd bod y gwastraff y maent yn ei wahanu ar gyfer ailgylchu yn cael ei ailgylchu ac nad yw'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Yn ogystal â chodi cwestiynau ynglŷn â lefel y galw cyhoeddus am wybodaeth am wastraff sy'n cael ei allforio y tu hwnt i CE ac EFTA, rydym yn amau a yw'n rhesymol disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu'r lefel o fanylder sy'n ofynnol i fodloni gofynion adran 55A(5). Cawsom dystiolaeth gref iawn i awgrymu y byddai awdurdodau lleol yn ei chael yn eithriadol o anodd, os nad yn amhosibl, bodloni'r gofynion penodol hyn. Rydym yn cydnabod y byddai'n bosibl i'r awdurdodau lleol gael peth o'r wybodaeth angenrheidiol drwy drefniadau contract gyda chwmnïau gwastraff preifat. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r pryder a godwyd mewn tystiolaeth y gallai fod goblygiadau ariannol i'r awdurdodau lleol yn sgil hynny ac y gallai wneud Cymru'n llai deniadol i gwmnïau gwastraff preifat.

118. Er ein bod yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r wybodaeth hon gan awdurdodau lleol neu lle na allant gael gafael arni, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod gofynion adran 55A(5) yn rhesymol nac yn wir y byddant yn help i wireddu'r nod o fod yn agored a thryloyw. Yn wir, credwn y dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd am wastraff sy'n cael ei allforio i'w adfer fod yn ystyrlon, y dylai gael ei chyflwyno mewn ffordd hygrych, ac y dylai gael ei gosod yng nghyd-destun ehangach gwastraff sy'n cael ei ailgylchu i osgoi camddechongli.

119. Yn dilyn o hyn, yn ôl yr Aelod sy'n gyfrifol, y disgwyl yw y bydd y Mesur arfaethedig yn arwain at fwy o ddiddordeb ac, felly, fwy o gyfranogi mewn ailgylchu. Er ein bod yn derbyn bod cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o beth i'w ailgylchu a sut mae gwneud hynny yn debygol o gael effaith bositif ar gyfraddau ailgylchu, nid yw'n dilyn o reidrwydd y bydd gwybodaeth benodol am wastraff sy'n cael ei gludo i'w adfer y tu allan i CE ac EFTA yn cael yr un effaith. Yn wir, cawsom dystiolaeth gref i awgrymu bod perygl gwirioneddol y gallai cyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Mesur arfaethedig danseilio'r cynnydd a wnaed yng Nghymru hyd yma o ran cyrraedd y targedau ailgylchu. I'r perwyl hwn, rydym yn amau a yw'r Mesur arfaethedig yn gyfrwng priodol i ddenu cymunedau lleol i gymryd rhan mewn ailgylchu.

120. Yn olaf, ar bwynt ehangach, nodwn amseriad y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff sydd, yn ôl tystiolaeth y Gweinidog, i fod i gael ei wneud yn gynnar yn 2010. Rydym yn cydnabod y byddai'r Gorchymyn arfaethedig, unwaith y caiff ei wneud, yn rhoi'r pŵer i'r

Cynulliad i gyflwyno Mesur ehangach, a fyddai'n delio nid yn unig â gwastraff trefol ond yn ymestyn i wastraff masnachol a diwydiannol. Hefyd, rydym yn cydnabod y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau gwastraff preifat ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am gyrchfan terfynol gwastraff.

121. Er ein bod yn nodi'r haerriad a wnaed gan yr Aelod sy'n gyfrifol y gellid diwygio'r Mesur arfaethedig, unwaith y caiff ei basio, er mwyn ehangu ei gwmpas, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod hon yn ffordd addas o weithredu o ystyried bod pŵer ar fin cael ei roi i'r Cynulliad drwy'r Gorchymyn arfaethedig. Serch hynny, rydym yn dal o'r farn nad oes angen deddfwriaeth newydd er mwyn gwneud y ffordd y mae awdurdodau lleol yn delio â deunydd ailgylchu yn fwy agored a thryloyw.

122. Am y rhesymau a nodwyd uchod, **rydym yn argymhell nad yw'r Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.**

4. Y goblygiadau ariannol

123. Wrth ystyried goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig, roeddem yn ymwybodol fod y Pwyllgor Cyllid wedi dewis ystyried agweddau ariannol y Mesur arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 14.2(i). Oherwydd hynny, ac i osgoi dyblygu, ni wnaethom ni ystyried y mater hwn yn fanwl iawn.

124. Codwyd pryder difrifol mewn tystiolaeth ynglŷn â goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i'r rhai a fyddai'n ei weithredu, yn enwedig yr awdurdodau lleol.

125. Dadleuodd y rhan fwyaf o'r rhai a roddodd dystiolaeth y byddai angen adnoddau sylweddol i alluogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion y Mesur arfaethedig, yn enwedig y gofynion yn adran 55A(5). Daeth y dystiolaeth hon nid yn unig o du llywodraeth leol ond gan y rhai a oedd yn cynrychioli'r sector gwastraff preifat, a oedd hefyd yn awgrymu y byddai goblygiadau cost i gwmnïau wrth ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol.¹²⁵

126. Wrth ymdrin â hyn, dywedodd Cyngor Sir Powys:

“...there will be a much higher level of effort required to get the level of detail required from organisations that are likely to be unwilling, or unable, to provide the information.”¹²⁶

127. Yn yr un modd, dywedodd Grŵp Gwastraff Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru:

“[there will be] a significant amount of time required to chase additional information on the final destinations...”¹²⁷

128. Haerodd Veolia hefyd:

“The data recording could be complex and expensive for all parties. We suspect that the final cost to local authority will be significantly higher as a result of these measures.”¹²⁸

129. Fel y crybwyllwyd cyn hyn, awgrymwyd y gallai ailnegodi contractau gyda chwmnïau gwastraff preifat olygu goblygiadau ariannol i'r awdurdodau lleol.¹²⁹ Yn ogystal â chostau gweinyddol, codwyd pryder mewn tystiolaeth y gallai awdurdodau lleol gael pris is am eu deunydd ailgylchu, ac y câi hynny effaith ar eu cyllidebau.¹³⁰

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig, SWR1, SWR4, SWR6, SWR7, SWR8, SWR9, SWR10, SWR11, ac SWR12.

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR8.

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR12.

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR6.

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 16 – 18, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; a thystiolaeth ysgrifenedig, SWR19.

130. Awgrymodd nifer o'r rhai a oedd yn rhoi tystiolaeth y byddai cost i'r awdurdodau lleol o ran coladu, dadansoddi ac ymateb i sylwadau a gâi eu cyflwyno gan y cyhoedd o dan adran 55B(3) a (5).¹³¹ Yn ei thystiolaeth, dadleuodd CLILC fod cost y Mesur arfaethedig yn cael ei hamcangyfrif ar oddeutu £700,000. Byddai hyn yn darparu adnodd a fyddai'n cyfateb i un aelod staff amser llawn i bob awdurdod lleol. Dywedodd:

“New staff would need to be recruited to deliver on this Measure and we would look to the Welsh Assembly Government to put additional fund into either the [local government revenue] settlement or Sustainable Waste Management Grant to cover the costs.”¹³²

131. Cododd eraill hefyd a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol yr angen i Lywodraeth Cymru gwrdd â chost y Mesur arfaethedig.¹³³

132. Wrth ymdrin â goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig, awgrymodd y Gweinidog eu bod yn anodd eu hasesu a ‘the costs would vary between local authorities, depending on the complexity of their arrangements’. Aeth ymlaen i haeru y byddai'r amcangyfrif o'r gost lawn oddeutu £350,000 y flwyddyn.¹³⁴

133. Eglurodd y Gweinidog y byddai angen i gost y Mesur arfaethedig gael ei chyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd:

“There is currently no budget provision for this, so funds would need to be diverted from other initiatives, possibly displacing activities set out in the ‘Towards Zero Waste’ Strategy...”¹³⁵

134. Haerodd y Gweinidog y byddai cost y gwelliannau technegol i WasteDataFlow i ganiatáu i'r awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth berthnasol yn wirfoddol oddeutu £20,000, a bod honno'n gost y gallai Llywodraeth Cymru ‘quite easily meet’.¹³⁶ Eto, dadleuodd bod modd gwireddu nod y Mesur arfaethedig ‘by other means and at a low cost’.¹³⁷

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol

135. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Nerys Evans AC:

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR8 ac SWR12.

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR11.

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR9 ac SWR11.

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, SWR14.

¹³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 8 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

“Awdurdodau lleol yng Nghymru fydd yn gyfrifol am fwy neu lai’r holl gostau.”¹³⁸

136. Roedd o’r farn fod yr amcangyfrif o £700,000 a ddarparwyd gan CLILC yn ‘amheus’ ac aeth ymlaen i egluro:

“...ac ni ragwelir y byddai angen un aelod o staff amser-llawn ym mhob awdurdod lleol i wneud y gwaith hwn. Yn benodol, am fod hyn yn un o’r gofynion mewn adroddiadau blynyddol, disgwylir i’r gwaith gael ei grynhoi ar un adeg o’r flwyddyn, gyda diweddariadau misol oddi wrth y proseswyr.”¹³⁹

137. Yn ei thystiolaeth, parhaodd Nerys Evans AC i ddadlau y byddai cost y Mesur arfaethedig yn ‘negligible’ ac y gallai’r dasg o’i weithredu ‘be easily incorporated’ ym maich gwaith staff presennol yr awdurdodau lleol.¹⁴⁰

Ein barn ni

138. Mae’r dystiolaeth a ddaeth i law yn dangos bod pryder ynglŷn â’r goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol wrth fodloni gofynion y Mesur arfaethedig, yn enwedig y gofyniad a geir yn adran 55A(5). Nodwn fod yr amcangyfrif o’r gost o weithredu’r Mesur arfaethedig yn amrywio o gost ddibwys i £700,000. Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, credwn fod cost y Mesur arfaethedig yn debygol o fod yn uwch na’r amcangyfrif gwreiddiol a ddarparwyd gan Nerys Evans AC. Yn wyneb ein penderfyniad i beidio â chefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, ni chredwn ei bod yn briodol gwneud unrhyw argymhellion ynglŷn â’i oblygiadau ariannol

¹³⁸ Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i’w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â’r Trefniadau) (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-07-EM-S1, paragraff 9.3.

¹³⁹ Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i’w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â’r Trefniadau) (Cymru), Memorandwm Esboniadol, MPM-07-EM-S1, paragraff 9.5.

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraffau 95 – 97, 1 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

5. Materion eraill

139. O ystyried nad ydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, ni chredwn ei bod yn briodol nac yn wir yn angenrheidiol cynnig sylwadau ar faterion eraill a godwyd yn ystod ein gwaith. Serch hynny, rydym yn cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law ynglŷn â'r materion hyn ac rydym wedi cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth hon isod er mwyn bod yn gyflawn.

140. Pe bai'r Mesur arfaethedig yn mynd y tu hwnt i Gyfnod 1, anogwn yr Aelod sy'n gyfrifol i roi ystyriaeth ddyledus i'r dystiolaeth a ddaeth i law oddi wrth randdeiliaid.

(a) Gofyniad ar awdurdodau lleol i gymryd 'camau rhesymol' i gael y wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5)

141. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 55A(8) fod awdurdod, wrth baratoi datganiad, yn cymryd 'camau rhesymol' i gael gafael ar y wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5). Yn ôl adran 55A(9), mewn achosion lle na all awdurdod ddarparu'r wybodaeth ofynnol, rhaid iddo gynnwys yn ei ddatganiad y camau a gymerwyd i geisio'r wybodaeth.

142. Roedd yn amlwg yn y dystiolaeth fod dryswch ynglŷn ag ystyr 'camau rhesymol' a sut y câi hynny ei weithredu'n ymarferol. Cododd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth bryderon fod lle i ddehongli'r term ac, felly, y byddai modd ei herio'n gyfreithiol.

143. Cododd CLILC gwestiynau ynglŷn â pha gamau y byddai angen i awdurdod lleol eu cymryd i fodloni'r gofyniad i gymryd 'camau rhesymol' i geisio'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5). Dywedodd:

